

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Eco-Sgolion
Eco-Schools

# Gweithredu Eco dan Arweiniad y Dosbarth


cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy


# Gweithredu Eco Dan Arweiniad y Dosbarth

## Troi dysgu amgylcheddol yn weithredu cadarnhaol!

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cefnogi disgyblion i gyfeirio eu dysgu eu hunain ac mae disgyblion yn fwy brwdfrydig nag erioed i ddysgu am ein planed a'r heriau mae'n eu hwynebu. Mae Eco-Sgolion Cymru yn gyffrous i gefnogi myfyrwyr llawn cymhelliant i gymryd camau i ddod yn ddinasyddion moesegol, gwybodus.

Mae dysgu am faterion amgylcheddol yn gallu bod yn llethol weithiau ac arwain at bryderon cynyddol neu orbryder. O ganlyniad, mae'n dod yn gynyddol bwysig bod disgyblion yn cael **y cyfle i ddefnyddio eu gwybodaeth i gymryd camau gweithredu cadarnhaol a chael eu grymuso i wneud gwahaniaeth**. Mae'r ddau ddiagram isod yn dangos sut y gallai hyn edrych yn ymarferol mewn perthynas â Newid Hinsawdd, gyda senario ar y dde yn enghreifftio dull cyfannol.



**Rhaglen Eco-Sgolion**

Mae fframwaith y rhaglen Eco-Sgolion wedi'i gynllunio i alluogi gweithredu dan arweiniad disgyblion ar gyfer newid amgylcheddol. Gellir gweithredu'r camau hyn mewn dosbarthiadau neu gan bwyllgor o ddisgyblion ac yn cael eu defnyddio ar draws yr ysgol gyfan. Rydym yn adeiladu hyder a'r ddealltwriaeth bod gan bob person y pŵer i affeithio newid ac ysbrydoli eraill gan alluogi disgyblion i droi eu dysgu'n weithred gan gysylltu sgiliau allweddol a datganiadau'r 'Hyn sy'n Bwysig'.

Dydyn ni ddim yn disgwyl i bawb fod yn eco-arbenigwyr, rydym yn deall ei bod hi'n gallu bod yn anodd ceisio gwybod pa gamau gweithredu i'w cymryd er mwyn gwneud effaith gadarnhaol.

Mae'r ddogfen hon yn archwilio sut mae dysgu yn y dosbarth wedi arwain at weithredu dan arweiniad y dosbarth gydag enghreifftiau o ysgolion ar draws Cymru. Rydym hefyd yn cynnwys dolenni i adnoddau defnyddiol. Nid yw'r syniadau'n holl gynhwysfawr felly os oes angen mwy o gefnogaeth arnoch, cysylltwch â ni a byddwn yn hapus iawn i ddarparu syniadau neu gymorth pellach.

Isod mae crynodeb o'r themâu gwahanol. Mae pob thema yn cynnwys enghreifftiau sy'n dangos sut mae dysgu gan arweiniad y dosbarth wedi arwain at gamau gweithredu dan arweiniad y dosbarth. Mae hefyd yn defnyddio **canlyniadau cadarnhaol wedi'u mesur.** Mae mesur y gwahaniaeth rydych chi'n ei wneud yn rhan bwysig iawn o'r broses gan ei fod yn dangos yr effaith yn ogystal â dangos ble i wneud gwelliannau pellach. Yn ogystal, mae'n ffordd wych o ddefnyddio trin data ac ymarfer sgiliau rhifedd drwy ddysgu ystyrlon!





# Cysylltu â’r Nodau Datblygu Cynaliadwy

Mae’r **Nodau Datblygu Cynaliadwy** yn set o dargedau a gafodd eu datblygu gan y Cenhedloedd Unedig. Eu nod yw mynd i’r afael â materion byd-eang gan gynnwys materion amgylcheddol a hinsoddol. Mae pob nod yn disgrifio pwnc ac yn cynnwys rhestr o dargedau sy’n eich helpu i gyflawni’r nod hwnnw.

Mae’r nodau Datblygu Cynaliadwy yn offer gwych i gysylltu â’ch camau gweithredu Eco-Sgolion gan eu bod yn dangos bod eich gwaith lleol yn ychwanegu at yr ymdrechion cyfunol sy’n cael eu gwneud yn fyd-eang.

Mae mwy o wybodaeth ac adnoddau yn ymwneud â’r Nodau Datblygu Cynaliadwy yma.

**Dim Newyn:** Dod â newyn i ben, cyflawni diogelwch bwyd a gwell maeth a hyrwyddo amaethyddiaeth gynaliadwy.

**Iechyd a Lles Da:** Sicrhau bywydau iach a hyrwyddo lles ar gyfer pawb o bob oedran.

**Addysg o Ansawdd:** Sicrhau addysg safonol, hollgynhwysol a chyfiawn a hyrwyddo cyfleoedd dysgu gydol oes i bawb.

**Dŵr Glân a Glanweithdra:** Sicrhau argaeledd a rheolaeth gynaliadwy o ddŵr a glanweithdra i bawb.

**Ynni Fforddiadwy a Glân**: Sicrhau mynediad at ynni fforddiadwy, dibynadwy, cynaliadwy a modern i bawb.

**Dinasoedd a Chymunedau Cynaliadwy:** Gwneud dinasoedd ac aneddiadau dynol yn ddiogel, yn wydn ac yn gynaliadwy.

**Gweithredu ar Newid Hinsawdd:** Cymryd camau brys i fynd i’r afael â newid hinsawdd a’i effeithiau.

**Byd o dan y Dŵr:** Cadw a defnyddio'r cefnforoedd, y moroedd ac adnoddau morol ar gyfer datblygu cynaliadwy.

**Bywyd ar Dir**: Gwarchod, adfer a hyrwyddo defnydd cynaliadwy o ecosystemau daearol, rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy, brwydro yn erbyn diffeithdiro, ac atal a gwrthdroi diraddio tir ac atal colli bioamrywiaeth.

# Bioamrywiaeth

Mae'r amrywiaeth anhygoel o ffurfiau byw, gan gynnwys planhigion, anifeiliaid a ffyngau ar draws y byd yn creu bioamrywiaeth.

Mae gennym blanhigion ac anifeiliaid anhygoel yng Nghrymu, mae dolffiniaid trwynbwl yn nofio oddi ar arfordir y gorllewin, mae dyfrgwn yn llithro drwy ein hafonydd, mae moch daear yn palu yn ein coedwigoedd ac mae barcudiaid coch yn hedfan yn osgeiddig yn yr awyr uwch ein pennau.

Trwy ddysgu a darganfod am fioamrywiaeth yn y dosbarth, mae disgyblion yn gallu dysgu am yr effaith gadarnhaol a negyddol rydym yn ei chael ar ecosystemau lleol a byd-eang. Mae'n bwysig gallu mynd â'r dysgu a'i droi'n weithred gadarnhaol er mwyn grymuso dysgwyr a gwybod ein bod ni'n gallu gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'n byd.

## Gweithredu dros Fioamrywiaeth – lleol

| **Gweithred** | **Effaith** | **Dolenni Defnyddiol** |
|---|---|---|
| **Plannu Coedwig/Clawdd:**<br>Ar ôl dysgu am rôl coed yn ein hecosystem a sut maen nhw'n cyfrannu tuag at y frwydr yn erbyn newid hinsawdd, cymerodd pawb yn Ysgol Gynradd Blaenhonddan ran mewn diwrnod plannu coed. Roedd pob plentyn wedi plannu coeden ac wedi ymrwymo i'w meithrin. | Cafodd 315 o goed eu plannu a fydd yn lleihau llifogydd, darparu cynefin a chysgod ac yn helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd yn y dyfodol. Bydd monitro blynyddol o gynnydd y coed ac arolygon bioamrywiaeth yn cael eu gwneud hefyd. | Coed Cadw:<br>Free Trees for Schools and Communities – The Woodland Trust |

| | | |
|---|---|---|
| **Gosod Blychau Adar:**<br>Ar ôl cymryd rhan yn Nigwyddiad Gwylio Adar Yr Ysgol RSPB, roedd disgyblion Ysgol Gynradd Rhydri wedi darganfod bod angen gwahanol flychau nythu ar wahanol adar. Yna, defnyddion nhw eu sgiliau Gwyddoniaeth a Thechnoleg i adeiladu blychau nythu i'r robin goch a'r titw tomos las.<br><br>Penderfynodd Ysgol Pentip osod blychau gwenoliaid du a chynnal ymgyrch ymwybyddiaeth ar bwysigrwydd bywyd gwyllt trefol ar ôl darganfod bod niferoedd y gwenoliaid du yn prinhau. | Cafodd nifer y blychau adar eu cyfrif ac roedd defnydd y blychau adar wedi'u monitro yn ystod y tymor nythu.<br><br>Cafodd 'Gwylio Adar yr Ysgol RSPB' ei gyflwyno i fesur cynnydd mewn rhywogaethau adar yn nhiroedd yr ysgol. | RSPB:<br>Big Schools' Birdwatch (rspb.org.uk)<br><br>Where To Put A Bird Box \| Nestboxes - The RSPB |
| **Creu Pwll Ysgol**<br>Ar ôl dysgu am werth pyllau ar gyfer bioamrywiaeth, dyluniodd ac adeiladodd disgyblion Ysgol Gynradd Gellifedw bwll ar gyfer bywyd gwyllt ar dir eu hysgol. Ymchwilion nhw i'r holl ddeunyddiau a'r planhigion a'u prynu gan ddefnyddio sgiliau rhifedd a menter. | Cafodd arolwg ei gynnal ar ddechrau'r prosiect a nododwyd amrywiaeth o rywogaethau.<br><br>Bydd yr arolwg yn cael ei gynnal yn flynyddol er mwyn mesur cynnydd y bywyd gwyllt. | RSPB:<br>How to Make a Wildlife Pond in Your Garden - The RSPB |
| **Adeiladu Cartrefi i Ddraenogod**<br>Ymchwiliodd Ysgol Gynradd Baglan ddraenogod a phenderfynu adeiladu cartrefi draenogod ar dir yr ysgol ar ôl darganfod bod draenogod mewn perygl. Cynhalion nhw ymgyrch ymwybyddiaeth er mwyn annog cartrefi lleol i greu priffyrdd draenogod a chynefinoedd draenogod yn eu gerddi. | Nifer y cartrefi draenogod wedi'u cofnodi a'u monitro<br><br>Ar ddechrau'r ymgyrch:<br>0% - cartrefi draenogod mewn gerddi<br>43% - cartrefi draenogod mewn gerddi (ar ôl un flwyddyn, gyda 83% yn datgan bwriad i greu gerddi sy'n gyfeillgar i ddraenogod. | British Hedgehog Preservation Society:<br>Hedgehog Homes (britishhedgehogs.org.uk)<br><br>wildlifewatch.org.uk/sites/default/files/2020-08/CYMRAEG.jpg<br><br>Link your garden with a hedgehog highway (hedgehogstreet.org) |

| | | |
|---|---|---|
| **Gadewch e'n Wyllt!**<br>Penderfynodd Ysgol Babanod Cefn Glas adael planhigion yn eu hardal natur dyfu'n wyllt er mwyn archwilio sut y byddai'n affeithio ar fioamrywiaeth ar dir yr ysgol. Torron nhw lwybrau drwy'r ardaloedd gwyllt er mwyn eu harchwilio heb darfu ar y bywyd gwyllt. | Cafodd collage o luniau ei greu gyda rhywogaethau planhigion a chreaduriaid bach cyn ac ar ôl ail-wylltio'r ardal natur.<br><br>Roedd y plant wedi rhyfeddu i weld sut oedd bioamrywiaeth yr ardal wedi cynyddu. | Ymddiriedolaeth Natur:<br>Activities \| Wildlife Watch – chwiliwch am 'Leave Garden Wild'<br><br>Plantlife:<br>Mai Di Dor - Plantlife |
| **Adeiladu Cynefin i Fwystfilod Bach**<br>Ar ôl cwblhau adolygiad amgylcheddol yn y dosbarth, roedd disgyblion Ysgol Gynradd Llandeilo Ferwallt yn poeni nad oedd llawer o gynefinoedd ar gyfer bwystfilod bach ar dir eu hysgol. Aethon nhw ati i greu gwesty chwilod ar dir yr ysgol. Gwnaethon nhw osod pentyrrau o goed, cerrig a sgwariau o hen garped i ehangu'r cynefin. | Mae arolygon bwystfilod bach rheolaidd wedi'u cynnal gan ddefnyddio dull 'llyfr lloffion mawr'. Mae'n cynnwys ffotograffau a lluniau wedi'u tynnu â llaw o rywogaethau sydd wedi'u canfod, gan nodi tuedd cynyddol yn amrywiaeth y rhywogaethau. | Ymddiriedolaeth Natur:<br>Activities \| Wildlife Watch |

## Gweithredu dros Fioamrywiaeth – byd-eang

| Gweithred | Effaith | Dolenni |
|---|---|---|
| **Datgoedwigo**<br>Cymerodd Ysgol Caer Drewyn ran mewn prosiect yn Sw Caer lle ymchwiliodd y disgyblion i olew palmwydd ac effeithiau datgoedwigo ar rywogaethau, yn enwedig rhywogaethau mewn perygl. Ysgrifennon nhw at Blue Peter, codon nhw arian fel ysgol i fabwysiadu orangwtan, ysgrifennon nhw erthyglau papur newydd ac ysgrifennon nhw at eu Cyngor Sir hefyd i ofyn iddyn nhw stopio defnyddio cynnyrch olew palmwydd yn eu ceginau. | Mae'r ysgol yn dweud bod y plant nawr wir yn meddwl am sut mae'r dewisiadau maen nhw'n eu gwneud yn gallu cael effaith ar y dyfodol a sut mae dewisiadau rydym yn eu gwneud fan hyn yn gallu cael effaith ar anifeiliaid a chymunedau mewn rhannau gwahanol o'r byd. Yn ogystal, mae'r plant yn deall beth yw olew palmwydd a datgoedwigo. | Maint Cymru<br><br>WWF |
| **Cefnforoedd** | Roedd yr ysgol gyfan wedi gwylio'r fideo a gafodd ei greu gan Flwyddyn 4 am lygredd yn y cefnforoedd. | WWF Ocean Pollution |

| | | |
|---|---|---|
| Roedd disgyblion Blwyddyn 4 Ysgol Gynradd Maerun wedi dathlu Diwrnod Cefnforoedd y Byd yn eu gwaith dosbarth. Gwnaeth hyn arwain at drafodaeth am lygredd yn y cefnforoedd, yn enwedig plastig ac Ardal Sbwriel Mawr y Môr Tawel. Penderfynon nhw wneud ymchwil er mwyn deall y problemau a'r atebion yn well. Gyda'r wybodaeth newydd honno gwnaeth Blwyddyn 4 greu fideo gyda'u sgiliau digidol i rannu gyda'u cyfoedion a'r gymuned ysgol ehangach. | Daethon nhw i ddeall yn well sut mae sbwriel ar ein strydoedd yn cyrraedd y cefnfor yn y pendraw ac yn niweidio bywyd morol. Roedd hyn wedi annog pawb i weithredu gan fod sbwriel cinio / byrbrydau ar dir yr ysgol. Yna, cynhalion nhw eu digwyddiad blynyddol 'Mis Medi Achub y Byd' lle cafodd yr holl gymuned ysgol eu herio i leihau'r plastig untro yn eu bocsys bwyd a'u byrbrydau. Gwelodd yr Eco-Bwyllgor leihad pellach mewn sbwriel o ganlyniad i'r ymgyrch hon. | Eco-Sgolion CymruWales - #ArFrigyDon |
| **Cadwraeth Fforestydd Glaw**<br>Dysgodd dosbarth blwyddyn 4 ym Mhowys am fforestydd glaw a pha mor bwysig ydyn nhw fel cynefin, heb sôn am fod yn sinciau carbon.<br>Dysgon nhw sut mae natur yn gweithio mewn cylchoedd. Defnyddion nhw'r wybodaeth newydd honno i greu terrariymau – hinsawdd hunangynhaliol ficro mewn jariau. Dysgodd Blwyddyn 4 ba mor fregus yw eco-system y fforestydd glaw a sut mae'n cael ei niweidio gan weithredoedd dynol, sydd yn ei dro yn dinistrio cynefinoedd. | Codon nhw ymwybyddiaeth yn yr ysgol a'r gymuned mewn gwasanaeth. Yna, defnyddion nhw eu sgiliau rhifedd i fesur ardal tiroedd eu hysgol a chodon nhw arian i brynu ardal gyfatebol o fforest law drwy 'Operation Ocelot' Steve Backshall. | How to make a terrarium \| DIY garden in a jar \| Blue Peter - CBBC - BBC<br><br>Operation Ocelot: All you need to know about our project for children to save nature with Steve Backshall - World Land Trustt |

# Newid Hinsawdd ac Ynni

Mae disgyblion yn gallu archwilio achosion Newid Hinsawdd wrth ddysgu am Newid Hinsawdd yn y dosbarth. Maen nhw'n gallu dysgu sut mae pobl yn creu nwyon tŷ gwydr a'r effeithiau rydym yn eu gweld yn lleol ac yn fyd-eang. Mae deall sut rydym yn achosi nwyon tŷ gwydr yn ein

bywydau bob dydd a sut ydyn ni'n gallu cymryd camau gweithredu cadarnhaol i'w lleihau yn hynod o bwysig i ddisgyblion er mwyn iddyn nhw deimlo eu bod wedi'u grymuso a gwybod ein bod ni'n gallu gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'n byd.

## Lleihau ein hôl troed Carbon

| Gweithred | Effaith | Dolenni Defnyddiol |
|---|---|---|
| **Diwrnodau Heb Gig**<br>Edrychodd disgyblion Ysgol Gynradd New Inn ar gynyddu diwrnodau heb gig yn eu cartrefi. Gwnaethon nhw ymchwil i ddarganfod faint o brydau bwyd oedd rhai heb gig yn barod ac yna casglon nhw rhai ryseitiau blasus i anfon adref er mwyn ysbrydoli teuluoedd. | Roedd y disgyblion wrth eu boddau i weld cynnydd o 20% yn y diwrnodau lle nad oedd cig yn cael ei fwyta ymhlith disgyblion a staff yn dilyn eu hymgyrch codi ymwybyddiaeth. | Arferion bwyd da \| Hoffi Bwyd, Casáu Gwastraff (lovefoodhatewaste.com)<br>How eating less meat can reduce our carbon emissions - Energy Saving Trust<br><br>'Angen i ni fwyta llai o gig,' medd Lee Waters AS - BBC Cymru Fyw |
| **Lleihau Defnydd o Ynni**<br>Ymchwiliodd disgyblion Blwyddyn 6 yn Ysgol Gynradd Rogerstone ddefnydd ynni drwy wefan Energy Sparks. Dysgon nhw sut mae ein defnydd o ynni yn cael ei gysylltu â newid hinsawdd. Sefydlon nhw 'Diffodd Dydd Mawrth' lle'r oedd ymdrech i ddiffodd golau lle y bo'n bosibl er mwyn lleihau'r defnydd o ynni (ac felly CO2 sy'n cael ei greu). | Roedd y disgyblion wedi darganfod drwy fonitro, bod 27% yn llai o ynni wedi cael ei ddefnyddio ar 'Diffodd Dydd Mawrth' o gymharu â diwrnod arferol. Mae hyn wedi annog mwy o weithgareddau 'diffodd'. | Sbarcynni ar gyfer ysgolion \| Sbarcynni (energysparks.uk) |
| **Ysgol ynni adnewyddadwy**<br>Treuliodd ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Ffynnon Taf amser yn ymchwilio ffynonellau adnewyddadwy o ynni fel rhan o brosiect i ddylunio eu hysgol 21ain ganrif newydd. Ymchwiliodd dosbarthiadau'r pynciau isod yn fanwl:<br>• Ymwelon nhw ag ysgolion a oedd newydd gael eu hadeiladu i dynnu lluniau a gwneud nodiadau am brif nodweddion, deunyddiau a gafodd eu defnyddio ac ati. | Yr effaith fwyaf arwyddocaol yw bod y disgyblion wedi gallu llunio dyfodol eu hysgol a bydd yr ysgol gyntaf yn cael ei gwresogi gan ffynonellau geothermol! Mae effeithiau eraill yn cynnwys:<br>• Cynhaliodd cymuned yr ysgol archwiliad ynni cartref i helpu teuluoedd i leihau'r defnydd o ynni.<br>• Rhannodd yr Eco-Bwyllgor awgrymiadau a syniadau gyda'r gymuned leol ar gyfer lleihau eu hôl troed ynni. | Ymchwiliwch i fentrau neu fentrau cydweithredol ynni adnewyddadwy yn eich ardal. \| Sbarcynni (energysparks.uk)<br><br>Investigating energy in the UK \| KS2 Geography \| Year 5 and Year 6 - BBC Bitesize |

| | | |
|---|---|---|
| • Aethon nhw ar ymweliadau addysgol at benseiri lleol i ddysgu sut i ddefnyddio a chreu lluniadau technegol.<br>• Aethon nhw ati i greu lluniadau cychwynnol i'w trafod gyda chymuned yr ysgol, penseiri ac amgylcheddwyr.<br>• Dylunion nhw arolwg ar-lein i gasglu gwybodaeth am ba nodweddion yr oedd y gymuned eu hangen yn yr ysgol.<br>• Cydweithion nhw mewn grwpiau i greu modelau wrth raddfa a lluniadau technegol mewn partneriaeth ag argraff artist o'r ysgol newydd.<br>• Ysgrifennon nhw lythyron ffurfiol i'r awdurdodau cynllunio gan dynnu sylw at bwysigrwydd ynni adnewyddadwy.<br>• Cyflwynon nhw eu gwaith i gynulleidfa o randdeiliaid a chreu taflen hysbysebu ddwyieithog ar gyfer y datblygiad newydd. | | |
| **Ysgol Paneli Solar**<br>Ar ôl gosod paneli solar yn Ysgol Comins Coch, cafwyd cyfle gwych i geisio cyfrifo faint o ynni oedd yn cael ei gynhyrchu a cheisio cyfrifo faint o goed fyddai angen eu plannu er mwyn storio'r un faint o $CO_2$. Roedd hon yn ffordd wych o ddod â rhifedd eco-seiliedig i mewn i'r dosbarth mewn ffordd ddilys ac ystyrlon. | Cyfrifon nhw fod yr ysgol wedi arbed 5,055.02kg o allyriadau $CO_2$ ers gosod y paneli, sy'n cyfateb i blannu 231 o goed. | [Cartref \| Awel Aman Tawe (aat.cymru)] |

Tynnu carbon o’n hatmosffer

| Gweithred | Effaith | Dolenni Defnyddiol |
|---|---|---|
| **Plannu Coed ar Diroedd Ysgolion**<br>Cymerodd disgyblion ar draws Cymru ran yn y prosiect Fy Nghoeden, Ein Coedwig i ysgolion. Dysgodd dosbarthiadau cyfan sut i blannu coed a pham eu bod mor bwysig i’n planed. | Cafodd dros 8,000 o goed eu plannu mewn 100 o ysgolion ar draws Cymru. Dysgodd disgyblion sut i ofalu am y coed a pham eu bod mor bwysig yn ein brwydr yn erbyn newid hinsawdd. | Free Trees for Schools and Communities - Woodland Trust<br><br>Prosiect Coedwig Genedlaethol Cymru - Pecyn Athrawon .pdf |
| **Prosiect Morwellt**<br>Cysylltodd Ysgol Gynradd Llangrallo â Phrosiect Morwellt i godi ymwybyddiaeth o forwellt, gan amlygu ei bwysigrwydd ar gyfer dal carbon a chynnal ardaloedd pysgota.<br>Roedd disgyblion yn gallu dysgu am y planhigyn rhyfeddol trwy weithdai dosbarth a gafodd eu cynnal gan y sefydliad. Gwnaethon nhw gymryd rhan mewn rhaglenni plannu yn ogystal â chreu gwasanaethau a fideos i'w defnyddio yng nghymuned ehangach yr ysgol hefyd. | Cafodd 100 o fagiau o forwellt eu plannu fel rhan o weithdy yn yr ysgol. Cafodd y rhain eu plannu yn y môr yn Dale, Sir Benfro. Cynhyrchodd Dosbarth 2 fideo am y profiad. | Education Resources \| Project Seagrass<br><br>Rohan's Seagrass film - YouTube |
| **Adfer a Gwarchod mawndiroedd**<br>Dysgu disgyblion yn Ysgol Ysgol Ysbyty Ifan a Phentrefoelas am bwysigrwydd mawn i gynefinoedd a storio carbon yn y tymor hir. Dysgon nhw fod mawndiroedd yn aml yn cael eu niweidio o ganlyniad i weithgaredd pobl a phenderfynon nhw godi | Cafodd y fideo ei ryddhau ar Youtube ac mae wedi cael ei wylio dros 2800 gwaith. | Fy enw i yw PEAT! - My name is PEAT! - YouTube |

| | | |
|---|---|---|
| ymwybyddiaeth drwy gydweithio i greu rap, gan ledu'r neges am ba mor bwysig yw mawn. | | |

# Lleihau Gwastraff a'r Economi Gylchol

Beth sy'n digwydd pan rydyn ni'n taflu pethau i ffwrdd? Ble yw 'i ffwrdd'? A ddylem ni fod yn taflu pethau i ffwrdd neu a yw'r dywediad o sbwriel un dyn yn drysor dyn arall yn wir? Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn adrodd mai Cymru yw rhif un yn y DU am ailgylchu, yn ail yn Ewrop ac yn drydydd yn y byd. Ond ydy hyn yn ddigon? Mae Llywodraeth Cymru am i ni ddod yn economi gylchol ddiwastraff erbyn 2050 ond beth mae hyn yn ei olygu? Sut ydyn ni'n gallu cymryd cyfrifoldeb llawn am ein gwastraff?

| Gweithred | Effaith | Dolenni Defnyddiol |
|---|---|---|
| **Lleihau Gwastraff Amser Cinio**<br>Dechreuodd disgyblion yn Ysgol Corneli bryderu am faint o becynnu gwastraff oedd yn cael eu cynhyrchu yn ystod amser cinio. Yna, dysgon nhw am broblemau plastig untro yn eu dosbarthiadau.<br>Ar ôl cynnal ymchwil a chael trafodaeth gyda'u cyd-ddisgyblion, penderfynodd y disgyblion dynnu'r bin gwastraff cyffredinol o'r ffreutur fel bod rhaid i ddisgyblion fynd â'i sbwriel adref. Maen nhw'n gobeithio gweld gostyngiad yn y plastig untro sy'n cael ei ddefnyddio pan fydd rhieni yn sylweddoli faint o sbwriel sydd yn cael ei gronni ar ôl wythnos o becynnau bwyd. | Roedd symud y bin gwastraff o'r ffreutur yn golygu bod 5 bag yr wythnos yn cael eu hachub o safleoedd tirlenwi, sef 195 yn y flwyddyn. | Lleihau Gwastraff Bwyd yn Ysgol Gynradd Waun Wen – Cadwch Gymru'n Daclus – Eco-Sgolion<br><br>Lleihau-Gwastraff-Abwydfa-Cyfnod-Sylfaen.pdf (keepwalestidy.cymru) |
| **Nid yw Plastig yn Ffantastig** | | |

| | | |
|---|---|---|
| Lleihau plastig untro drwy'r ysgol.<br><br>Sylwodd disgyblion yn Ysgol Trefyclawdd fod llawer o'r bwyd o'r gegin yn cael ei weini gyda haenen lynu (cling film) ar ei ben. Ar ôl rhywfaint o waith ditectif daethon nhw i'r casgliad fod y gegin yn defnyddio sawl haenen lynu'n ddyddiol. Roedd hyn wedi cynhyrfu'r disgyblion gan eu bod wedi dysgu'n ddiweddar am blastig yn y cefnforoedd a sut mae anifeiliaid a'r gadwyn fwyd yn cael eu heffeithio gan blastig.<br>Roedd dysgwyr blwyddyn 4 wedi cymryd hyn o ddifri a chasglon nhw ddata ar faint o 'haenen lynu' oedd yn cael eu defnyddio. Yna gweithion nhw gyda staff y gegin i edrych ar ddewisiadau eraill yn lle haenen lynu a gofyn i staff y gegin eu helpu i gyrraedd eu targed o leihau plastig trwy gyfnewid i'r opsiynau amgen. | Sylwodd dysgwyr fod y staff yn y gegin yn defnyddio llai o blastig, ond bod dysgwyr wedi gwneud eu rhan hefyd. Sylwodd yr Eco-Bwyllgor fod disgyblion yn defnyddio mwy o *Tupperware* a defnydd lapio bwyd cwyr gwenyn yn eu pecynnau bwyd. | Sbwriel a bywyd gwyllt \| North Wales Wildlife Trust<br><br>World Refill Day - Refill - Join the Refill Revolution |
| **Ail-bwrpasu Crysau T i'w defnyddio yn lle bagiau plastig.**<br>Roedd myfyrwyr yng Ngholeg Cymunedol Y Dderwen (CCYD) eisiau codi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â phlastigau untro trwy gynnal gweithdai a fyddai'n hwyl ac yn cyfrannu at iechyd meddwl a lles ar yr un pryd.<br>Cynigiodd y disgyblion weithgaredd uwchgylchu a oedd yn annog disgyblion i ddod â hen grysau-t nad oeddyn yn cael eu gwisgo i'r ysgol a'i droi'n fag | Daeth 22 o ddisgyblion a 45 aelod o staff i'r gweithdy a thrafodon nhw'r materion roedden nhw'n ceisio eu hosgoi a'r effaith mae'r diwydiant ffasiwn a thecstilau yn gallu ei chael ar yr hinsawdd.<br>Aethon nhw i hyrwyddo'r gweithgaredd yng 'Ngŵyl Ddysgu' Pen-y-bont ar Ogwr ym mis Gorffennaf. Roedd hyn yn cynnwys cyfranogwyr o bob ysgol ym Mhen-y-Bont ar Ogwr – gan olygu eu bod yn gallu cyrraedd cynulleidfa ehangach fyth. | Pupil Power - Plastic Free Schools - Surfers Against Sewage<br><br>Lleihau-gwastraff-Cydwybod-Ffasiwn-min.pdf (keepwalestidy.cymru) |

| | | |
|---|---|---|
| siopa, gan leihau gwastraff yn y diwydiant tecstilau a gwastraff plastig untro. | | |
| **Cyfnewid Llaeth**<br>Roedd disgyblion blwyddyn 5 a 6 Ysgol Gynradd Pen Y Fro yn teimlo'n gryf am boteli llaeth plastig oherwydd eu bod yn dysgu am ofalu am eu planed yn eu gwersi 'Un Byd, Un Cyfle'. Roedden nhw eisiau gwybod pam yr ydym yn dal i ddefnyddio poteli llaeth plastig pan fo problem fyd-eang o geisio lleihau plastig. Dywedodd yr Eco-Bwyllgor wrthyn nhw wedyn am ysgol arall yn Sir Fynwy yr oedd un o aelodau blwyddyn 6 y pwyllgor wedi darllen amdani gyda'u rhieni.<br>Wnaeth y disgyblion ddarganfod mai'r cyngor sy'n gyfrifol am ein llaeth, felly, penderfynon nhw ysgrifennu atyn nhw a gofyn a fydden nhw'n cael cyfarfod i drafod y mater. Ymatebodd y cyngor gan ddweud y bydden nhw'n hapus i wneud hynny. Yna rhoddodd y disgyblion gyflwyniad at ei gilydd i'w roi i aelodau'r cyngor. | Bob dydd mae'r ysgol yn defnyddio 128 o boteli llaeth yn nosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen. Mae hynny'n 640 o boteli llaeth bob wythnos. Mae 39 o wythnosau ysgol yn y flwyddyn, sy'n golygu bod yr ysgol yn defnyddio cyfanswm o 24,960 o boteli llaeth bob blwyddyn.<br><br>Mae 63 o ysgolion cynradd yn Abertawe sy'n golygu bod tua 1,572,480 o boteli llaeth yn cael eu defnyddio bob blwyddyn.<br><br>Mae'r cyngor wedi e-bostio'r ysgol i ddweud ei fod yn edrych ar y mater a bydd yn rhoi gwybod i ni pan fydd penderfyniad wedi'i wneud. Rydyn ni'n obeithiol bod hyn wedi codi ymwybyddiaeth ac y bydd newid yn digwydd i leihau nid yn unig plastig yn ein hysgol ni ond yn Abertawe gyfan hefyd. | Newid Hinsawdd - Monmouthshire<br>**Addysgu ein plant ac ymgysylltiad cymunedol**<br>• Mae ysgolion sir Fynwy yn hybu cadwraeth, ailgylchu a negeseuon dim plastig. Mae llawer o ysgolion yn Sir Fynwy yn rhan o'r rhaglen Eco-Sgolion.<br>• Yn y gorffennol roedd ysgolion Sir Fynwy yn defnyddio 11,500 o boteli llaeth plastig bob wythnos neu 437,000 y flwyddyn. Nawr mae pob potel yn wydr gyda llaeth wedi'i gynhyrchu o fewn radiws o 30 milltir. Mae'r llaeth wedi'i botelu mewn potel wydr y gellir ei hailddefnyddio ac mae'r llaeth yn dod yn syth i'r ysgol o'r llaethdy.<br><br>Cymharu Opsiynau Pecynnu Llaeth ar gyfer Ysgolion Cynradd Sir Fynwy \| WRAP (wrapcymru.org.uk) |
| **Siopau Cyfnewid, dillad ysgol, dillad gwisgo i fyny a mwy**<br>Cafodd disgyblion yn Ysgol Bryn Awel sioc pan ddysgon nhw fod gan y diwydiant ffasiwn effaith | Cafod draws doriad o 54 o ddisgyblion eu harolygu cyn ac ar ôl y camau gweithredu ar 'leihau gwastraff' gan gynnwys y 'siop dros dro'. Roedd effaith fesuradwy ar ymddygiad, agweddau, gwybodaeth a dealltwriaeth (yn ôl y data). | 'Siop Dros Dro i ail garu hen wisg ysgol – Cadwch Gymru'n Daclus – Eco-Sgolion |

| | | |
|---|---|---|
| negyddol iawn ar yr hinsawdd. Mae ffasiwn gyflym yn gyfrifol am tua 10% o allyriadau byd-eang! Ar ôl darganfod bod llawer o eitemau o ddillad sy'n cael eu gwaredu dal mewn cyflwr da a'i bod yn cymryd 27,000 o litrau o ddŵr i wneud un crys-t, teimlodd y disgyblion fod angen iddyn nhw weithredu. Penderfynon nhw sefydlu siop gwisg ysgol i werthu dillad ysgol ail law. Cynhalion nhw gystadleuaeth i'r ysgol gyfan ddylunio poster ar gyfer y digwyddiad a gwnaethon nhw arolwg cyn ac ar ôl y digwyddiad i gasglu data. | Roedd dros 115 o ddarnau o wisg ysgol wedi'u hatal rhag mynd i safleoedd tirlenwi.<br><br>• **Ydy hi'n iawn i wisgo gwisg ysgol sydd wedi'i wisgo o'r blaen?**<br>Cyn: roedd 87% wedi dweud 'ydy', Ar ôl: roedd 100% wedi dweud 'ydy'.<br>• **Ydych chi'n gwybod pam ydyn ni'n ceisio lleihau gwastraff o ddillad?**<br>Cyn: roedd 46% wedi dweud 'ydy, Ar ôl: roedd 81% wedi dweud 'ydy'.<br>• **Teimlodd y plant eu bod nhw wedi gwella'u gwybodaeth** o le mae'r deunyddiau ar gyfer eu dillad yn dod a sut maen nhw'n cael eu gwneud.<br>• Dywedodd **100%** o'r disgyblion eu bod nawr yn ymwybodol y gall ailddefnyddio gwisg ysgol arbed arian a helpu'r amgylchedd. | BBC Newsround – Understanding fast fashion |
| **Siop Siwmperi Nadolig**<br>Penderfynodd disgyblion yn Ysgol Bodnant gynnal arwerthiant siwmperi Nadolig. Maen nhw'n ailgylchu cotiau a gwisg ysgol yn barod, felly roedden nhw'n teimlo y byddai cyfle da i'r cynllun hwn weithio. Dysgodd disgyblion blwyddyn 4 am sut nad yw ffasiwn yn gynaliadwy a sut mae'n gallu cyfrannu tuag at newid hinsawdd. Gwnaethon nhw ddarganfod hefyd sut mae dillad sy'n cael eu gwaredu yn cyrraedd safleoedd tirlenwi yn y pen draw. | Cafodd dros 30 o siwmperi Nadolig eu rhoi ar gyfer yr arwerthiant ac roedd yn llwyddiant ysgubol. Yn ddiweddarach, dysgodd y staff fod rhai o'r teuluoedd ar incwm is wedi prynu siwmperi yn yr arwerthiant ac wedi dweud ei fod yn syniad gwych. Cafodd yr arian o'r arwerthiant ei roi i elusen. | Save the Children – Sustainable Christmas Jumper Swap |

| | | |
|---|---|---|
| **Blancedi Pacedi Creision**<br>Roedd llawer o blant yn Ysgol Trelewis wedi codi'r broblem o sbwriel yn y strydoedd - yn bennaf pacedi creision. Roedd un plentyn wedi sôn ei fod yn drist iawn i weld person digartref ar y stryd pan yr oedd wedi bod yng Nghaerdydd yn ddiweddar.<br>Yn dilyn y pryderon hyn, roedd y disgyblion wedi ymchwilio i ddigartrefedd yn y dosbarth a daethon nhw o hyd i ddolen i gwmni sy'n wneud blancedi i'r gymuned ddigartref o hen bacedi creision! Cafodd syniad i helpu datrys y ddwy broblem! Esboniodd y disgyblion eu syniadau i weddill yr ysgol mewn gwasanaeth a dechreuon nhw gasglu hen bacedi creision. | Ar ôl i'r cyfnod casglu orffen, golchodd y disgyblion y pacedi a'u cyfri. Roedd yr ysgol wedi arbed 1450 o bacedi creision rhag cael eu taflu, ac yna'n cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi lle byddan nhw'n aros am 80 o flynyddoedd! Roedd hyn yn golygu hefyd y byddai'r disgyblion yn gallu anfon y pacedi creision i ffwrdd i gael eu gwneud yn 11 o flancedi ar gyfer y gymuned ddigartref. Roedd y disgyblion yn falch iawn o hyn. | Area Groups (crisppacketproject.com) |
| **Llogi Pecynnau Parti y Gellir eu Hailddefnyddio**<br>Ymchwiliodd disgyblion o Ysgol Gynradd Llantrisant ffynonellau o blastig untro a sylweddolon nhw fod partïon plant yn cynhyrchu symiau mawr o wastraff diangen. Penderfynon nhw fuddsoddi mewn set o becynnau parti y gellir eu hailddefnyddio. Mae pobl yn gallu hurio'r set ar gyfer partïon am ffi fach iawn. Mae'n helpu lleihau gwastraff mewn partïon plant ac yn codi ymwybyddiaeth yng nghymuned ehangach yr ysgol. | Mae llai o wastraff yn cael ei gynhyrchu gan fod y pecyn parti yn cael llawer o ddefnydd. Mae wedi helpu codi ymwybyddiaeth o wastraff plastig untro. | BBC Bitesize – Managing Resources |
| **Creu Ysgol Gylchol**<br>Ar ôl mynychu gwers fyw ar yr 'Economi Gylchol' gan staff Eco-Sgolion, dechreuodd disgyblion yn Llandeilo ymchwilio i ba mor gylchol oedd eu hysgol. Edrychon nhw ar 'gylchoedd bywyd' rai o'r gwastraff | Roedd y dysgwyr yn teimlo bod eu gweithredoedd yn rhai da, ond y byddan bosibl eu gwella wrth annog mwy o bobl i gymryd rhan.<br>Anfonon nhw gardiau post â llaw gyda gwybodaeth yr oedden nhw wedi'i hymchwilio iddi am economi gylchol i'r | 'What is Circular Economy' video<br><br>Beth ydy economi cylch.pptx |

| | | |
|---|---|---|
| sy'n cael ei gynhyrchu yn yr ysgol i weld a oedd ganddynt fywyd cylchol neu linol. Yn seiliedig ar yr ymchwil hwn maen nhw wedi sefydlu nifer o fentrau, gan gynnwys siop gyfnewid ac wythnos ginio eco. Mae hyn wedi'u hysbrydoli i wneud ymchwil yn y dosbarth i ddarganfod mwy o ffyrdd i wneud y dyfodol yn fwy cynaliadwy. | gymuned leol. Yn ogystal gwnaethon nhw herio eu cymuned leol i ymchwilio i ba mor gylchol oedd eu cartrefi a'u ffordd o fyw. | |

# Tiroedd yr Ysgol a Lles

Mae Tiroedd Ysgolion yn llefydd gwych ar gyfer addysg, chwarae a bywyd gwyllt. Boed yn ardaloedd wyneb caled neu eangderau mawr o leoedd gwyrdd, maen nhw'n cynnig man diogel lle mae pobl ifanc yn gallu ymgysylltu a dysgu am y byd o'u cwmpas. Mae treulio amser yn yr awyr agored wedi'i ddangos i fod yn fuddiol iawn i lesiant a meithrin mwy o ddealltwriaeth o natur a'n byd naturiol.

Trwy ddarganfod yn yr ystafell ddosbarth, sy'n gysylltiedig â'r testun hwn, efallai y bydd disgyblion wedi darganfod ein bod yn treulio cymaint mwy o amser dan do ac y gall tiroedd yr ysgol fod yr unig ryngweithio â'r byd awyr agored i rai disgyblion.

Mae'n bwysig felly i allu mynd â'r dysgu a'i droi'n weithred gadarnhaol er mwyn cael eich grymuso a datblygu tiroedd ysgol gan roi cyfleoedd i fod yn fwy egnïol, cysylltu â natur a chymdeithasu.

| Gweithred | Effaith | Dolenni Defnyddiol |
|---|---|---|
| **Gwella Amser Chwarae:**<br>Daeth disgyblion Ysgol Gynradd Maesglas i'r casgliad bod llawer o ddisgyblion CA2 wedi'u diflasu amser chwarae. Penderfynon nhw ennyn diddordeb disgyblion trwy lunio holiadur a daethon nhw i'r casgliad bod angen mwy o | Cafodd heol heini bren ei gosod.<br><br>Roedd y disgyblion wedi cwblhau holiadur yn nodi cynnydd mewn gweithgaredd corfforol yn ystod amser chwarae. | Play Wales:<br>[Cartref - Play Wales CYM (chwarae.cymru)] |

| | | |
|---|---|---|
| offer chwarae egnïol. Mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth dyluniodd a chostiodd y disgyblion heol heini (trim trail) ar dir yr ysgol. Roedden nhw wedi gorchwylio'r broses o osod yr heol heini hefyd. | Roedd goruchwylwyr amser cinio wedi monitro problemau ymddygiad a oedd wedi gwella ar ôl cyflwyno offer chwarae mwy egnïol. | |
| **Magu anifeiliaid:**<br>Penderfynodd disgyblion San Siôr, trwy brosiect entrepreneuraidd, ffermio a meithrin ieir. Nodon nhw ran o dir yr ysgol i'w ddefnyddio er mwyn datblygu'r fenter hon. Mae'r disgyblion yn ymwneud â phob agwedd o'r prosiect hwn o les yr anifeiliaid i farchnata a gwerthu'r wyau. | Mae 20,000 o wyau yn cael eu cynhyrchu'n flynyddol ac mae cysylltiadau wedi'u gwneud i'r gadwyn gyflenwi leol. Mae pob un o feysydd y cwricwlwm wedi'u cysylltu â'r prosiect gan gynnwys data ar incwm/gwario sy'n tynnu sylw at elw, a chofnodi sŵn y ceiliogod i weld a oes 'lefelau sain niwsans'. Mae'r prosiect wedi'i ddatblygu bellach i dyfu llysiau i greu siytniau a gwenynfa. | Ysgol San Siôr:<br>Creative \| San Sior<br><br>Food Un-folded:<br>Keeping Chickens in Schools \| How it Works (foodunfolded.com) |
| **Creu Ardaloedd Tawel:**<br>Edrychodd disgyblion Ysgol Gynradd Brynteg ar ddefnydd o diroedd yr ysgol gan ganolbwyntio'n benodol ar ardaloedd tawel i fyfyrio. Daethon nhw i gasgliad bod angen mwy o'r ardaloedd hyn felly aethon nhw ati i greu 'ardaloedd tawel'. Cafodd hyn ei gysylltu â datblygu cynefinoedd bywyd gwyllt i adar - porthwyr adar, blychau nythu a physt clwydo fel bod disgyblion yn gallu cysylltu â bywyd gwyllt yn eu hamseroedd tawel. | Datblygwyd holiaduron i werthuso llwyddiant yr 'ardaloedd tawel' a dangoswyd bod llawer o ddisgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfle i gael amser myfyriol yn ystod amser chwarae.<br><br>Cynhaliwyd arolwg cyn ac ar ôl y prosiect a nododd gynnydd yn amrywiaeth rhywogaethau. Mae monitro bywyd gwyllt wedi'i ymgorffori i'r cwricwlwm. | Adnoddau Cadwch Gymru'n Daclus -<br>Iechyd-bwyd-a-lles-Lle-Arbennig-CA2-Lefel-Is.pdf (keepwalestidy.cymru)<br><br>Dysgu drwy dirluniau<br>Outdoor Learning ideas \| Outdoor Lesson ideas \| Outdoor Learning Resources (ltl.org.uk) |
| **Creu Gosodiadau Celf:**<br>Defnyddiodd Ysgol Gynradd Bigyn y llyfr 'The Lost Words' i lunio prosiect ar fioamrywiaeth tiroedd yr ysgol a chreu gosodiad celf awyr agored – coeden gyda theils clai yn gysylltiedig â phlanhigion ac anifeiliaid wedi'u hongian arni. Gwnaeth pob dosbarth archwilio'r tir i ddarganfod | Cynhyrchodd llyfrau mawr ar gyfer holl diroedd yr ysgol gan gynnwys lluniau, cerddi, ffeiliau ffeithiau, dyluniadau, paentiadau wedi'u cysylltu â'r fioamrywiaeth.<br><br>Gwnaeth y llyfrau hyn arwain at ddatblygu mwy o gynefinoedd yn nhiroedd yr ysgol ac mae'r disgyblion yn | The Lost Words:<br>Lostwordsbook \| The Lost Words |

| | | |
|---|---|---|
| pwy oedd yn byw yno. Tynnon nhw luniau, ysgrifennu ffeiliau ffeithiau, creu cerddi a chynnal arolygon.<br>. | ychwanegu at y llyfrau'n gyson, gan nodi cynnydd yn amrywiaeth rhywogaethau gwahanol. | |
| **Chwarae - Deunyddiau wedi'u Hadfer:**<br>Cafodd disgyblion Ysgol Gynradd Christchurch eu herio i greu waliau chwarae gan ddefnyddio pibellau, sosbenni, cwteri, tiwbiau, paledi, twmffatiau, pibellau a llawer mwy. Dylunion nhw wal sain a wal ddŵr a'u hadeiladu er mwyn ychwanegu at y ddarpariaeth chwarae ar iard yr ysgol. | Cyflwynwyd arolygon ar hap i weld faint o ddisgyblion oedd yn chwarae gyda'r wal sain a dŵr a ddangosodd eu bod yn cael eu defnyddio'n rheolaidd. | Dysgu drwy dirluniau:<br>School Grounds Design Guide - LtL - School Grounds<br><br>Chwarae Cymru:<br>Cartref - Play Wales CYM (chwarae.cymru) |
| **Prosiect Nôl i Natur:**<br>Daeth gymuned gyfan Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr a'r gymuned ehangach at ei gilydd i ymestyn gardd yr ysgol er mwyn darparu amgylchedd dysgu amgen i'r disgyblion. Y syniad oedd creu gofod dysgu yn yr awyr agored er mwyn ymgysylltu â natur a dysgu o ble mae bwyd a dod a sut mae'n cael ei dyfu. Yn ogystal, roedden nhw eisiau creu gofod i alluogi disgyblion wella eu hiechyd meddwl a darparu cyfleoedd cyffrous sy'n cysylltu â pedwar diben Cwricwlwm Newydd Cymru a Chynllun Datblygu'r Ysgol. | Gweithiodd dros 300 o ddisgyblion ar y prosiect ac roedden nhw wedi mwynhau treulio amser yn yr awyr agored, gan ddatblygu eu dealltwriaeth o dyfu bwyd.<br>Maen nhw wedi plannu 250 o goed, adeiladu wyth gwely pren, twnnel polythen, popty pridd a deildy, tanc casglu dŵr glaw yn ogystal â phlannu amrywiaeth o ffrwythau a llysiau gan gynnwys tatws, tomatos, pwmpen cnau menyn, gwrdiau, mangetout, ffa llydain, ffa, moron a nionod! Wedi'u hysbrydoli gan hyn, aeth y disgyblion ymlaen i ymuno â *Plant Llantwit*, grŵp cadwraeth amgylcheddol leol a phlannu 420 o goed ger yr ysgol. | Ysgol Llanilltud Fawr, Bro Morgannwg - Cadwch Gymru'n Daclus - Eco-Sgolion (keepwalestidy.cymru) |

# Bwyd

Mae bwyd yn ganolig i'n bywydau ac mae'n gallu cael effaith gadarnhaol iawn neu effaith negyddol iawn ar ein planed a'n hamgylchedd. Mae gan ein dewisiadau bwyd y potensial i effeithio ar eraill yn lleol ac yn fyd-eang. Wrth ddysgu am fwyd yn y dosbarth, gall disgyblion fod wedi dysgu am yr effaith y gall bwyd ei gael ar fforestydd, cymdeithas a'r hinsawdd. Efallai y byddan nhw wedi edrych ar sut mae ffermio wedi newid dros amser yn ogystal â phrosiectau arloesol ar gyfer y dyfodol.

Mae ein penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ac eraill ac mae gwaith yn y maes hwn yn helpu disgyblion i wneud penderfyniadau mwy gwybodus a moesegol yn seiliedig ar eu gwerthoedd. Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae dysgu am fwyd wedi arwain at weithredu cadarnhaol yn y dosbarth.

| Gweithred | Effaith | Dolenni Defnyddiol |
|---|---|---|
| **Cefnogi Bwyta'n Iach yn y Gymuned – Tyfu Eich Bwyd Eich Hun:**<br>Ar ôl dysgu am heriau costau byw a nifer y bobl sy'n dibynnu ar fanciau bwyd, penderfynodd disgyblion yn Ysgol Gynradd Gymunedol Swiss Valley gasglu rhoddion ar gyfer y banc bwyd lleol. Yn dilyn llwyddiant y fenter hon penderfynon nhw ddechrau prosiect i dyfu tatws a'u rhoi i'r banc bwyd lleol er mwyn galluogi pobl i dderbyn bwyd ffres yn rhan o'u parseli bwyd. | Cafodd 13 o welyau pren eu hadeiladu yn yr ysgol er mwyn i'r holl ddisgyblion gymryd rhan yn y prosiect tyfu tatws. Dros un tymor, tyfodd yr ysgol dros 250kg o datws a'u dosbarthu i bobl yn Llanelli drwy'r banc bwyd lleol, gan gyrraedd dros 100 o deuluoedd. | Growing-Together-Toolkit-CYM.pdf (keepwalestidy.cymru)<br><br>School Gardening / RHS Gardening |

| | | |
|---|---|---|
| **Tyfu Bwyd:**<br>Dechreuodd disgyblion Ysgol Gynradd Llandeilo astudio pwnc o'r enw 'Tyfu a Blodeuo gyda'n Gilydd' gan eu bod eisiau deall o le mae bwyd yn dod a defnyddio sgiliau bywyd 'go iawn'. Tyfon nhw fwyd o hadau, dysgon nhw i goginio a gwerthon nhw focsys bwyd i'r gymuned. Gwnaethon nhw hyd yn oed greu pitsa gyda saws tomato wedi'i wneud yn yr ysgol wedi'i becynnu mewn bocs wedi'i ailgylchu! | Dechreuodd y prosiect gyda'r nod o gysylltu disgyblion â tharddiad eu bwyd.<br><br>Datblygodd yn weithgaredd blwyddyn gyfan a datblygwyd cysylltiadau â banc bwyd yr ysgol gan helpu'r gymuned leol.<br><br>Mae nifer y bocsys bwyd sydd wedi'u creu ac ymweliadau a'r banc bwyd wedi'u recordio gan y disgyblion sy'n dangos cynnydd yng nghefnogaeth y gymuned a bwyd fforddiadwy'n cael ei gyflenwi i bobl leol. | Royal Horticultural Society:<br>home / RHS Campaign for School Gardening<br><br>WWF:<br>Food growing resources and activities \| WWF |
| **Siop Ffrwythau Masnach Deg:**<br>Ar ôl dysgu am Fasnach Deg yn yr ysgol a'r effaith y mae ein dewisiadau yn eu cael ar bobl yn fyd-eang, penderfynodd disgyblion yn Ysgol Iau Cwmaber ymchwilio i faint o'r ffrwythau yn eu siop ffrwythau oedd yn ffrwythau Masnach Deg. | Ar ôl darganfod bod lle i wella, ysgrifennodd y dosbarth at y pennaeth i ofyn am newid i ffrwythau Masnach Deg (e.e. bananas) lle y bo'n bosibl. Mae hynny nawr wedi digwydd ac mae'r disgyblion yn gallu mwynhau bwyta ffrwythau Masnach Deg yn ddyddiol.<br>Mae'r disgyblion nawr yn edrych i gynyddu defnydd o gynnyrch Masnach Deg yn yr ystafell athrawon. | Available in Welsh - Fairtrade Schools |
| **Pysgod Cynaliadwy:**<br>Archwiliodd disgyblion mewn ysgol yn Nhorfaen bysgota a'i effaith ar y blaned. Cwestiynon nhw'r term 'pysgota cynaliadwy' a gweithredon nhw fel 'ditectifs pysgodlyd' gan archwilio ceginau'r ysgol gyda'r staff arlwyo i weld a oedd y cynnyrch pysgod roedden nhw'n eu gweini wedi'u hardystio gan MSC | Gwnaeth y disgyblion ddarganfod nad oedd yr un o'r cynhyrchion pysgod wedi'u hardystio gan MSC, felly ysgrifennon nhw lythyr perswadiol at wasanaethau arlwyo'r awdurdod i hwyluso newid. | Sustainable Fishing \| MSC \| Marine Stewardship Council |

# Trafnidiaeth

Rydyn ni i gyd yn teithio i'r ysgol. Gyda phwyslais ar Iechyd a Llesiant, rydyn ni'n gallu gwneud gwahaniaeth enfawr i'n hamgylchedd os ydyn ni'n ystyried buddion teithio llesol – cerdded, seiclo neu ar sgwter.

Efallai bod disgyblion wedi darganfod yr effaith rydyn ni'n ei chael, yn gadarnhaol ac yn negyddol ar y gymuned leol yn ystod gweithgareddau yn y dosbarth ac yn deall bod sut rydyn ni'n teithio yn effeithio ar y blaned ar raddfa leol a byd-eang.

Mae'n bwysig i allu mynd â'r dysgu a'i droi'n weithred gadarnhaol i deimlo bod y disgyblion wedi'u grymuso ac yn gwybod eu bod nhw'n gallu gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'n byd.

| Gweithred | Effaith | Dolenni Defnyddiol |
|---|---|---|
| **Prosiect Llygredd Aer:**<br>Cynhaliodd Ysgol Gynradd Sgeti brosiect i atal ceir oedd yn segura. Trwy waith dosbarth gwnaethon nhw arolygu nifer y ceir oedd yn segura, ac edrych ar effaith negyddol y rhain trwy ddefnyddio monitor llygredd aer. Yn ogystal edrychon nhw ar y mathau o gen ar dir yr ysgol sy'n agored i lygredd. | Cafodd baner/ymgyrch codi ymwybyddiaeth ei chreu, gan annog teithio llesol a diffodd injans ceir. Cafodd y faner ei gosod ar ffens yr ysgol i bawb ei gweld a dangosodd canlyniadau arolwg pellach fod nifer y ceir oedd yn segura wedi'u lleihau. | Royal Geographical Society:<br>Royal Geographical Society - Resources for schools (rgs.org) |
| **WOW – Her Cerdded i'r Ysgol:**<br>Ar ôl astudio Newid Hinsawdd drwy ddull yn seiliedig ar ymchwil, sylwodd disgyblion Ysgol Gynradd Durand fod canran fawr o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol mewn ceir, hyd yn oed y  rhai oedd yn byw gerllaw. Sefydlon nhw fws cerdded, cynhalion nhw ddiwrnodau cerdded i'r ysgol a thrafodon nhw fuddion corfforol teithio llesol. | Cafodd y traciwr WOW ei ddefnyddio i fonitro teithio llesol ar draws yr ysgol. Cafodd tlws misol ei ddefnyddio i ddathlu'r dosbarth gyda'r mwyaf o ddisgyblion yn ymwneud â theithio llesol. Roedd hyn wedi cynnig cyfleoedd ar gyfer casglu a dadansoddi data. | Living Streets:<br>Wales \| Living Streets<br>WOW - the walk to school challenge \| Living Streets |

| | | |
|---|---|---|
| Cydweithiodd y dosbarthiadau gwahanol i weld pa ddosbarth oedd yn gallu lleihau eu hôl troed y mwyaf. | Mae'r cynnydd yn teithio llesol wedi bod yn sylweddol ac mae lefelau tagfeydd wedi gostwng hefyd. | |
| **Sustrans - Sifft Fawr, Teithio'n Ddoethach:**<br>Roedd Ysgol Gynradd Mynwy yn archwilio Byw'n Iach a phenderfynodd y disgyblion gymryd rhan yn y Sifft Fawr i annog cerdded i'r ysgol er budd Iechyd a Lles. Bob dydd Iau am 5 wythnos cafodd disgyblion Dosbarth Onyx eu hannog i gerdded i'r ysgol. Rhannon nhw eu taith gyda'r ysgol gyfan trwy adroddiadau rheolaidd mewn gwasanaethau gan ganolbwyntio ar y mwynhad o'r daith i'r ysgol yn ogystal â phwysleisio'r manteision amgylcheddol o gyfnewid teithiau car byr am opsiynau mwy ecogyfeillgar. | Erbyn wythnos 5, roedd 72% o ddisgyblion yn teithio i'r ysgol mewn ffordd lesol o fan cychwyn o 65%. Cyfrifon nhw fod y teithiau ychwanegol wedi llosgi 6,766 o galorïau, sy'n cyfateb i 27 o doesenni (*doughnuts*)! | Sustrans:<br>Ein gwaith yng Nghymru - Sustrans.org.uk |
| **Diwrnodau teithio llesol - *'Bling Your Bike' 'Monster Stomp'*:**<br>Ar ôl dysgu am ôl troed carbon cerbydau, defnyddiodd disgyblion yn Ysgol Gynradd Tregwyr eu sesiynau celf mynegiadol i gynyddu teithio llesol drwy gynnal digwyddiadau *'Bling Your Bike'* rheolaidd lle'r oedd plant yn addurno eu beiciau a'u sgwteri. Cafodd y rhai mwyaf creadigol eu gwobrwyo.<br><br>Archwiliodd Ysgol Gynradd Betws lesiant meddyliol a darganfod pa mor fuddiol yw amser yn yr awyr agored ar gyfer ein hiechyd. Penderfynon nhw gynnal diwrnodau *'Monster Stomp'* rheolaidd lle byddai disgyblion yn gwisgo fel bwystfilod neu archarwyr wrth gerdded i'r ysgol i annog teithio llesol llawn hwyl. | Roedd y ddwy fenter wedi gweld cynnydd sylweddol mewn teithio llesol, 25% yn achos y *'Monster Stomp'*. | Sustrans:<br>Stroliwch a Roliwch Sustrans - Sustrans.org.uk<br><br>Cycle to School Week Teacher Resources - Sustrans.org.uk<br><br>Bike to School Week Resources IBIKE.PDF (sustrans.org.uk) |
| **Disgo Ynni Da - Seiclo am ynni:** | Mae data yn cael ei gynhyrchu ar ynni sy'n cael ei greu gan bŵer pedalau, y pellter a gafodd ei deithio, y | Ynni Da:<br>Gweithdai - Ynni Da |

| | | |
|---|---|---|
| Gwnaeth Ysgolion Cynradd Cenarth, Trewen a Beulah archwilio buddion iechyd seiclo. Drwy feddwl yn greadigol, gofynnon nhw wrth Disgo Ynni Da am gymorth. Mae'n rhaid i chi bedalu beiciau i bweru'r system sain. Mae'n tynnu sylw at ynni amgen, teithio cynaliadwy yn ogystal â hybu ymarfer corff. | calorïau a gafodd eu defnyddio a chyfradd curiad y galon cyn ac ar ôl pedalu.<br><br>Mae'r data hwn yn creu cyfleoedd i edrych ar yr ynni sy'n cael ei gynhyrchu a'i gymharu ag effaith gweithgareddau dyddiol megis berwi tegell. Mae'n helpu dysgwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddefnydd ynni. | |
| **Staff yn Rhannu Ceir:**<br>Yn ystod eu gwaith ar deithio a thrafnidiaeth, daeth disgyblion Ysgol Gynradd y Cymer i'r casgliad bod maes parcio'r ysgol yn llawn trwy'r amser. Gosodon nhw her i leihau nifer y teithiau unigol ymhlith y staff. Defnyddion nhw holiadur i sefydlu gwaelodlin a gofynnodd y disgyblion caniatâd yr Uwch Dîm Reoli i gael diwrnod rhannu ceir pwrpasol unwaith yr wythnos. Cynhyrchon nhw daflen ffeithiau yn tynnu sylw at y buddion amgylcheddol ac ariannol a'u rhannu gyda'r athrawon. | Erbyn diwedd y flwyddyn academaidd roedd y disgyblion wedi cofnodi gostyngiad o 50% yn nifer y ceir oedd yn defnyddio maes parcio'r ysgol. | Sustrans:<br>Car clubs and car-sharing - Sustrans.org.uk |

# Dŵr

Mae tua 71% o'r Ddaear yn ddŵr, ond, mae llai na 3% o hwn yn ddŵr croyw. Mae angen dŵr ar bopeth byw i oroesi yn eu hecosystemau gan gynnwys bodau dynol. Rydym yn defnyddio dŵr yn ein bywydau bob dydd ar gyfer yfed, coginio, glanhau ac ar raddfa fwy ar gyfer amaethyddiaeth, pŵer, gweithgynhyrchu gan gynnwys dillad a glanweithdra. Mae dŵr yn werthfawr gyda llawer o bobl yn byw mewn ardaloedd sy'n profi sychder ar draws y byd ac yn y DU.

Isod mae rhai enghreifftiau yr ydym wedi'u gweld yn dangos sut mae dysgu yn y dosbarth yn gallu arwain at weithredu yn y dosbarth sy'n dangos canlyniad cadarnhaol pwyllog. Mae mesur y gwahaniaeth rydych chi'n ei wneud yn rhan bwysig iawn o'r broses gan ei fod yn dangos yr effaith a hefyd yn dangos lle mae lle i wneud gwelliannau pellach. Mae hefyd yn ffordd wych o ddefnyddio technegau trin data a rhifedd!

| **Gweithred** | **Effaith** | **Dolenni Defnyddiol** |
|---|---|---|
| **Cysylltu dysgu yn y cartref**<br>Ar ôl dysgu am y gylchred ddŵr, gosododd disgyblion cynradd Glan Wysg wythnos o dasgau arbed dŵr fel dysgu gartref.<br>Y thema oedd 'pam a sut i arbed dŵr?' Roedd angen i'r holl ddisgyblion ddarganfod sut a pham mae dŵr yn bwysig i ni. Roedd blynyddoedd 3, 4 a 5 wedi edrych ar faint maen nhw'n ei ddefnyddio yn yr ysgol a gartref ac archwilion nhw ffyrdd i arbed dŵr. | Roedd disgyblion yn gallu mesur a monitro eu defnydd o ddŵr cartref. Roedd llawer o'r plant wedi'u syfrdanu gan faint o ddŵr roedden nhw'n ei ddefnyddio gartref, a arweiniodd at wneud newidiadau i'w harferion dyddiol.<br><br>Dywedodd Shae 8 oed "Rydym yn defnyddio 264.54 galwyn y dydd. Mae mam yn fy amseru yn y gawod nawr fel ein bod ni'n gallu defnyddio llai o ddŵr. Bydd hyd yn oed munud yn gyflymach yn ein helpu i arbed dŵr." | Adnoddau Dysgu \| Dŵr Cymru Welsh Water (dwrcymru.com) |
| **Dim ond Dŵr** | Roedd draeniau ar draws Torfaen wedi'u haddurno â chwistrell sialc (nad oedd yn barhaol), a oedd yn hybu | Ar Frig y Don – Cadwch Gymru'n Daclus |

| | | |
|---|---|---|
| Roedd disgyblion mewn ysgolion ar draws Torfaen wedi cael sioc i ddarganfod faint o'n draeniau storm sy'n gwagio'n uniongyrchol i afonydd. Penderfynon nhw ei bod yn bwysig codi ymwybyddiaeth o hyn yn y gymuned leol ac esbonio y dylwn ni roi dŵr yn unig i lawr y draeniau, nid hylifau eraill neu sbwriel.<br>Cynllunion nhw dempled a gafodd ei dorri o finyl a'i ddefnyddio i roi sialc ar ddraeniau yn yr ardal leol gyda'r neges 'Only Water' neu 'Dim ond Dwr'. | trafodaethau gyda theuluoedd ac aelodau eraill o'r gymuned ynghylch beth sy'n digwydd i bethau sy'n mynd i lawr y draen. Mae wedi arwain at well dealltwriaeth o ble mae'r draeniau'n mynd a newidiadau mewn ymddygiad. | Ocean-Friendly Schools Award \| Marine Conservation Society (mcsuk.org) |
| **Gwahodd arbenigwyr a chymryd rhan mewn gweithdai**<br>Gwahoddodd Ysgol Gynradd Treforys Dŵr Cymru i gynnal gwasanaeth ysgol gyfan a gweithdai dilynol gyda Chyfnod Allweddol 2.<br><br>Archwilion nhw wahanol ffyrdd o arbed dŵr cyn ymchwilio i ddefnydd dŵr yn eu hysgol. | Gyda'u gwybodaeth newydd, sylwodd y disgyblion fod y system fflysio yn nhoiledau'r ysgol wedi dyddio, a chafodd yr hen system fflysio ei newid i arbed dŵr a gwneud yr ysgol yn fwy ecogyfeillgar.<br><br>Mae gan blant bellach ddealltwriaeth ehangach o ddefnydd synhwyrol o ddŵr, a'r pryderon byd-eang ehangach am lygredd y môr a'i achosion a'i effeithiau. | Ymweliadau Addysgol \| Dŵr Cymru Welsh Water (dwrcymru.com) |
| **Achub ein Cefnforoedd**<br>Croesawodd Ysgol Uwchradd Crucywel thema ysgol gyfan o'r enw Achub ein Cefnforoedd. Fel rhan o'r dysgu roedd myfyrwyr wedi creu gwaith megis erthyglau, mapiau a phosteri ar fater llygredd plastig a chafodd y rhain eu dangos mewn arddangosfa i'r gymuned leol.<br>Cafodd taith ei threfnu i draeth hefyd i godi sbwriel.<br>Sylweddolodd y disgyblion fod mynediad cyfyngedig i ffynonellau dŵr ail-lenwi yn yr ysgol, a oedd yn arwain at ddefnyddio mwy o boteli plastig untro. | Ar y diwrnod codi sbwriel ar y traeth, casglon nhw dri bag o sbwriel.<br><br>Cododd diwrnod di-wisg ddigon o arian i osod tair ffynnon ddŵr ar draws yr ysgol, sydd bellach yn cael eu defnyddio'n rheolaidd, gan wneud yn siŵr bod disgyblion yn yfed digon o ddŵr ac yn lleihau faint o boteli dŵr untro sy'n cael eu defnyddio. | Fun and learning \| What you can do \| Marine Conservation Society (mcsuk.org)<br><br>Ysgol Uwchradd Crucywel, Powys - Cadwch Gymru'n Daclus - Eco-Sgolion (keepwalestidy.cymru) |

# Sbwriel

Efallai bod disgyblion wedi dysgu am effeithiau sbwriel ar ein hamgylchedd a’n bywyd gwyllt a sut mae’n cyfrannu at newid hinsawdd yn y dosbarth.

Mae’n bwysig i allu mynd â’r dysgu a’i droi’n gamau gweithredu cadarnhaol er mwyn teimlo ein bod ni’n gallu gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i’n byd.

Mae ychydig o enghreifftiau isod sy’n dangos sut mae dysgu yn y dosbarth yn gallu arwain at gamau gweithredu a arweinir gan y dosbarth sy’n dangos canlyniadau cadarnhaol mesuradwy. Mae mesur y gwahaniaeth rydych chi’n ei wneud yn rhan bwysig o’r broses gan ei fod yn eich galluogi i ddathlu’r ymdrech sydd wedi’i gwneud. Yn ogystal, mae’n dangos bod lle i wneud gwelliannau pellach. Mae’n ffordd wych o ddefnyddio trin data a thechnegau rhifedd hefyd!

| Gweithred | Effaith | Dolenni Defnyddiol |
|---|---|---|
| **Mynd i’r afael â baw cŵn:**<br>Pan aeth disgyblion Ysgol Gynradd Parc yn Nhreorci am dro i ymchwilio eu cymuned leol, gwnaethon nhw ddarganfod bod problemau baw cŵn yno. Defnyddiodd y disgyblion eu gwersi Gwyddoniaeth a Thechnoleg i uwchgylchu poteli plastig 2 litr yn ddosbarthwyr bagiau baw cŵn. Cafodd y rhain eu gosod yn y gymuned. | Roedd nifer fawr o bobl yn defnyddio’r dosbarthwyr bagiau i godi baw eu cŵn. Cafodd y disgyblion eu cyfweld ar y radio lleol hefyd!<br>Gwnaethon nhw arolwg nes ymlaen yn y flwyddyn a darganfod bod llai o faw cŵn o gwmpas ardal yr ysgol. | Cadwch Gymru’n Daclus _ Caru Cymru |
| **Pŵer Protestio:**<br>Ar ôl dysgu am yr effeithiau negyddol y mae sbwriel yn gallu ei gael ar fywyd gwyllt, roedd disgyblion Babanod Cwmaber eisiau codi ymwybyddiaeth o broblemau sbwriel. Gofynnon nhw i bawb arall yn yr ysgol a darganfod bod 100% o’r disgyblion yn teimlo’r un peth. | Daeth llawer o drigolion y gymuned i weld y protest a gan eu bod yn cytuno â’r neges wedi penderfynu helpu a hysbysu eraill.<br><br>Gwelon nhw ostyngiad amlwg yn y sbwriel sy'n cael ei ollwng yn eu parc lleol. | Fridays for Future – How to Strike<br><br>Beth am fynd i'r afael a sbwriel - keepwalestidy \| Fflipio PDF Ar-lein \| FlipBuilderr |

| | | |
|---|---|---|
| Yn seiliedig ar hyn, penderfynodd y disgyblion gynnal protest yn eu cymuned leol. | | |
| **Gweithred sbwriel ysgol gyfan!**<br>Roedd yr Eco-Bwyllgor yn Ysgol Gynradd Ein Harglwyddes yr Angylion yng Nghwmbrân eisiau cael pob grŵp blwyddyn i gymryd rhan yn eu gweithred sbwriel. Cynigodd disgyblion y Cyfnod Sylfaen rai awgrymiadau ar y ffordd orau o ofalu am yr amgylchedd a'u rhannu gyda'u rhieni. Creodd Blwyddyn 3 bosteri i godi ymwybyddiaeth. Ysgrifennodd Blwyddyn 4 lythyrau at Fam Natur yn gofyn beth oedden nhw'n gallu ei wneud i helpu. Gwnaeth Blwyddyn 5 arolwg o'r biniau o amgylch yr ysgol, a oedd digon yno ac a oedden nhw'n cael eu defnyddio'n gywir. Ac yn olaf, creodd Blwyddyn 6 gyflwyniad a gafodd ei rannu mewn gwasanaeth ysgol gyfan. Cafodd rhieni wahoddiad i'r gwasanaeth hwn hefyd. Yna bu'r Eco-Bwyllgor yn monitro cynnydd yr ysgol trwy sesiynau codi sbwriel rheolaidd. | Ar ddechrau'r digwyddiadau codi sbwriel, casglon nhw ddau fag o sbwriel yr wythnos, Aeth hwn i lawr i un bag yr wythnos.<br>Gwnaethon nhw gyfrifo bod un bag llawn yn cyfateb i 74cm a chan eu bod wedi casglu 21 bag o sbwriel hyd yn hyn, roedd hwnnw wedi cyrraedd uchder o 15.54 metr. Dyna chwarter uchder Bloc Tŵr Cwmbrân! Dywedodd aelodau'r cyhoedd gymaint gwell yw'r amgylchedd yn yr ysgol. | Adnoddau Cynradd - Cadwch Gymru'n Daclus - Eco-Sgolion (keepwalestidy.cymru) |
| **Sioe Drasiwn:**<br>Yn dilyn ymchwil ar wastraff plastig, ysgrifennodd dysgwyr blwyddyn 5 Ysgol Gynradd Parc Castell lythyron at fusnesau lleol, yn eu herio i leihau'r nifer o gynhyrchion roedden nhw'n eu gwerthu mewn pecynnau plastig.<br>Roedden nhw eisiau mwy o ymwybyddiaeth o'r problemau sbwriel parhaus ac felly cafodd sioe ffasiwn ei chynnal ac roedd y dillad wedi'u gwneud allan o sbwriel, plastig untro yn bennaf. | Mae biniau gwastraff plastig wedi eu gosod yn yr ysgol yn dilyn adborth gan ddisgyblion.<br><br>Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan y rhai a fynychodd a theimlwyd bod effaith gadarnhaol ar faint o sbwriel oedd o gwmpas yn dilyn y sioe. | Upcycle That – idea for trash fashion |
| **Sbwriel mewn Safleoedd Tirlenwi:**<br>Roedd dosbarth derbyn Ysgol Gynradd Garnteg wedi creu eu safle tirlenwi eu hunain i arsylwi ar yr hyn sy'n digwydd i wahanol fathau o sbwriel dros amser. | Sefydlwyd digwyddiadau gyda disgyblion drwy'r ysgol yn cymryd rhan a cafodd mwy o finiau eu hychwanegu i ardaloedd problemus ar dir yr ysgol. | Landfill Facts |

| | | |
|---|---|---|
| Defnyddion nhw focs pren gyda blaen plastig er mwyn iddyn nhw allu edrych ar beth oedd yn digwydd.<br><br>Sylwon nhw nad oedd dim yn digwydd i'r rhan fwyaf o'r sbwriel (ar wahân i'r gwastraff bwyd) ac yna datblygodd ddealltwriaeth glir o sut mae hyn yn digwydd gyda'r rhan fwyaf o sbwriel y byd. Roedd hyn yn eu gwneud yn benderfynol iawn o atal sbwriel yn eu hysgol a'u cymuned. | Gwnaeth y disgyblion arolwg o sbwriel ar dir yr ysgol ac wedi darganfod gostyngiad yn faint o sbwriel oedd yno. | |

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Eco-Sgolion
Eco-Schools

cadwch gymru'n daclus
keep wales tidy

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB

029 2025 6767 keepwalestidy.cymru eco-schools@keepwalestidy.cymru

---

Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni wedi ei gyfyngu trwy warant. Rhif Cwmni: 4011164 Rhif Elusen: 1082058 Rhif TAW: 850 3958 13

Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 8503958 13